

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn am 7pm. Nos Iau 14eg o Fawrth 2019 Yng Nghanolfan Glasinfryn

Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 14eg o Chwefror 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 20/02/19

- Adroddiad o'r IBC
- TAW ag ad-daliad NDR
- Agor ail gyfrif banc
- Ceisiadau Ad 137
 - *Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen*
 - *Grwp Ioga Glasinfryn*
 - Grwp Arlunio Glasinfryn
 - Cylch Merched Glasinfryn
 - Canolfan Glasinfryn

○ Taliadau

▪ Cyflog	Mis 11	£443.00
▪ HMRC	Mis 11	£110.80
▪ Eglwys St Pedr	Defnydd o'r Eglwys i gyfarfodydd	£60.00
▪ Aelodaeth Unllais Aelodaeth		£394.00
▪ Anghenion Swyddfa Gwynedd	Dyddiadur Stamps a Amlenni	£38.70
▪ Traelia Cynghorwyr	Atgoffwyd pawb o'r angen i gwblhau ffurflen traelia os ydynt yn dymuno hawlio a'i peidio	

- Derbynebon Pritchard Llanberis £165 Claddu JRS Engravings £35 gosod carreg fedd a Cyngor Gwynedd £251.73 Ad-daliad NDR
Cyfanswm o £451.73

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir Dim mis yma

Cyfarfod Geraint Owen hefo dirprwyaeth o Cyngor Pentir 20fed o Chwefror i drafod manylion mewnnol y Ganolfan newydd ar safle Ysgol y Faenol

Materion y Clerc

- Adroddiadau
 - Giat y Fynwent
 - Llwybrau'r Fynwent
 - Syrfe y Capel
 - Hysbysfyrdd Ysbyty Gwynedd
 - Sbwriel yng ngêg Pont Menai
 - Prydles Canolfan Penrhos - Cadarnhau os ydi'r Cyngor yn derbyn H o Ts
 - Traelia Cynghorwyr

Materion y Cynghorwyr

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 14^{eg} o Chwefror 2019 yng Nghanolfan Glasinfryn am 7pm

Presennol:

Y Cyng. D W Jones, J Pierce, C Hughes, D Jones-Morris, B Jones, M Baines, R Jones, L James a J Griffiths
E Jones (Clerc)

Gwr Gwadd Tomos Hughes Cyd-lynnnydd Diffibs Gog Cymru

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. M. Lynch, T Anwyl-Williams, a H. Griffiths

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol gyda croeso arbennig i Tomos Hughes i'n plith i sgwrsio am Diffibrylion.

Cyflwynodd Tomos ei hun gan amlinnellu ei swydd cyn symud ymlaen i disgrifio y gwahanol fath o ddiffribrylion sydd ar gael a sut mae y peiriant SOL AED +mae nhw'n argymell a'i gosod yn rhagori ar y mathau eraill, er efallai fod rhai o rheini ychydig yn rhatach i'w prynu, ond wedyn hefo costau ol-ofal.

Mae posib dewis peiriant heb glô am £800 + TAW neu hefo clô côd fysa £365 + TAW yn ddrytach

Mae cabinet i'w osod yn £354 +Taw

Ciosk ffôn neu hen giosg ydi'r lleoliad delfrydol a rhaid i'r peiriant gael ei osod gan drydanwr a chymhwyster NIC gyda côst rheini yn amrywio rhwng £90 a £190

Mae'r Cwmni mae Tomos yn gweithio iddynt Ambiwlans Cymru yn cynnig Cwrs Hyfforddiant am ddim. Diolchwyd i Tomos am ei gyflwyniad.

Ar hyn o bryd yn unig rai cymunedol yn ei ardal y gwyddom amdanynt yw un Parchu Pentir yn Sgwar Pentir ag un yn Ysgol y Faenol

Cytunwyd trafod y syniad i brynu a gosod rhai yn ein cymunedau ymhellach yn yr Is Bwyllgor Cyllid ar ddechrau'r Flwyddyn Ariannol 2019-20

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant a chwblhau'r ffurflen briodol os cyfyd yr angen

Cofnodion 10fed o Ionawr

Cyng J Griffiths yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng D W Jones yn eilio

Materion yn codi o'r cofnodion

Trefnu Hyfforddiant – 'roedd y Clerc wedi holi Kathryn Owen Clerc Tref Caernarfon a sy'n hyfforddi cysiau Unllais ond rhaid trefnu drwy Unllais a nhw wnaiff wedyn gysylltu a hyfforddwr/aig

Parcio Penrhos - yr un mor drafferthus ag erioed os nad gwaeth.

Cyng M Baines eisioes wedi trafod gyda swyddogion trafndiaeth Gwynedd.

Angen cael asiantaethau fel Yr Heddlu , Cyngor Gwynedd a swyddogion Ysbyty Gwynedd at eu gilydd.

Cyng M Baines am wneud ymholiadau

Cilgaint Allotan Swyddog trafndiaeth wedi bod yna gyda drych i arbrofi - dim mwy o welededd hefo drych

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC 30/01/19 dosbarthwyd cofnodion gan nodi nad oeddent wedi eu derbyn yn gywir tan yr IBC nesaf fyddai ymlaen 27ain o Chwefror
- TAW a ad-daliad NDR Ad-daliad £251.73 NDR wedi ei dderbyn ond dim o'r TAW
- Ceisiadau Nawdd

Mudiad Ffermwyr Ifanc wedi cysylltu i wahodd y Cyngor i fod yn ffrind i'r mudiad ar gost blyneddol o £100 y flwyddyn. Nid oedd yn rhywbeth allai ni ymgymeryd ag ef ond

Llythyr wedi ei dderbyn o **Tenovou a Ymddiriedolaeth Gofalwyr** yn edrych am gyfraniad.

Argymhelliad yr IBC i'r Clerc anfon llythyr atynt yn adrodd fod rhaid cael mantolen ariannol cyn gellir eu ystyried

Taliadau

Cytunwyd talu a ganlyn Cyflog y Clerc

Mis 11

£443.00

	HMRC	Mis 11	£110.80
Eglwys St Pedr		Defnydd o'r Eglwys i gyfarfodydd	£60.00
Aelodaeth Unllais		Aelodaeth	£394.00
Anghenion Swyddfa Gwynedd		Dyddiadur Stamps a Amlenni	£38.70
Cytunwyd talu i'r adeiladwr oedd wedi Hydref dwaetha		Diogelu safle Giat y Fynwent	£356.00

Traelia Cynghorwyr Atgoffwyd pawb fod ein Cyllideb am y flwyddyn yn cynnwys £150 ar gyfer traelia pob Cynghorydd - Rhaid cwblhau ffurflen i hawlio neu i wrthod y taliad. Ffurflenni wedi eu paratoi

Derbynebion Pritchard Llanberis £165 Claddu JRS Engravings £35 gosod carreg fedd a Cyngor Gwynedd £251.73 Ad-daliad NDR Cyfanswm o £451.73

I'w trafod hefyd **Damwain Giat y Fynwent** Esbonwyd fod ein Cwmni Ysw yn sgil anfon Loss Adjuster i edrych os oedd difrod amgylcheddol wedi cyfeirio at y ffaith ein bod efallai wedi prisio y Capel rhy isel a allai gael effaith a'r ein cais. Mae BDO wedi holi am brisiau hefyd Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Cwmni Dafydd Hardy i drefnu Syrfe

Tarmacio Llwybrau y Fynwent

Y Clerc wedi derbyn 3 amcanbris ar gyfer y gwaith. Y pris isaf heb gynnwys cerbio o gwbl y ddau bris nesaf yn eitha agos at eu gilydd ond un yn cerbio hefo coed tra fod y llall yn cerbio hefo cerb concrit Cytunwyd gwahodd E H i ailbriso yn cynnwys cerb

Polisiau

Cytunwyd sefydlu grwp i edrych drwy ein holl Polisiau. Adolygu beth fyddai ei angen a'i mabwysiadu. Clerc i anfon fersiwn electronig templed Rheolau Sefydlog fel man cychwyn i Cyng D J M a Cyng L A J

Cyfarfod Geraint Owen Cyngor Gwynedd i drafod tu mewn i Ganolfan Arfaethedig

Trafodwyd yr angen i gael cynrychiolaeth 2 neu 3 o'r Cyngor i drafod safleoedd ystafelloedd/storffeydd a cegin yn y ganolfan ar safle Ysgol y Faenol.

Cynnigodd Cadeirydd y Cyngor C. Hughes y dylai Cynghorydd o ardal Penrhos arwain gan gynnig Cyng D Jones-Morris; awgrymwyd fod y ddau Gynghorydd sy'n cynrychioli Cyngor Pentir ar Pwllgor Rheoli Canolfan Penrhos a Llywodraethwyr Ysgol y Faenol fod y ddau arall.

Argymhell enw'r tri i'r Cyngor Llawn.

Materion y Clerc

• Adroddiadau

- Giat y Fynwent Y gwaith ail-adeiladu wedi cychwyn. Syrfe y Capel i'w drefnu
- Llwybrau'r Fynwent Trafodwyd nad oedd EH wedi dod yn ol hefo pris Cerbio a cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Cwmni James Cyf ai gwahodd i ymgymeryd a'r gwaith mor fuan a phosib.
- Hysbysfyrdd Ysbyty Gwynedd Cyng D J M mewn trafodaeth hefo'r Ysbyty ag wedi cyfeirio at y mater
- Biniau Halen Halen wedi ei roi yn y mwyafrif o'r biniau ond dim Dim biniau ychwanegol wedi eu gosod
- Prydles Canolfan Penrhos / Ysgol y Faenol Cadarnhau mae Cyng D Jones-Morris Cyng L A James a Cyng T A Williams fel y rhai i gyfarfod Geraint Owen
- Traelia Cynghorwyr Atgoffwyd pawb fod yna swm o £1800 wedi ei neilltuo yn y Praesept ar gyfer traelia sef £150 y pen.

Materion y Cynghorwyr

Cyng James Griffiths Cyflwr wyneb y ffordd o hen eglwys Glasinfryn i'r groeslon Waen Wen. Mae safon y ffordd bellach yn ddifrifol. **Clerc i Gysylltu a Cyngor Gwynedd**

Yn gyffredinol datganwyd pryderon ynglyn a sbwriel yn gyffredinol ar draws yr ardal Daeth y cyfarfod i ben 9.25

Cyfarfod nesaf Nos Iau 14eg o Fawrth